Datganiad i'r wasg gan Gyswllt Twristiaeth Aberdaron Tachwedd 2020 v1

Awyr Dywyll Aberdaron Gwynedd



Y Llwybr Llaethog

Mae Cyswllt Twristiaeth Aberdaron wedi dangos blaengaredd drwy ymgeisio am Ardystiad Awyr Dywyll Rhyngwladol er budd y gymuned, amgylchfyd. bywyd gwyllt a'r economi drwy annog ymwelwyr tu allan i'r tymor gwyliau arferol.

Mae'r awyr yn ardal Aberdaron, ardal y cyfeirir ati'n aml fel Pen Draw'r Byd, yn syfrdanol o dywyll yn enwedig ar nosweithiau clir yn y gaeaf.

Mae'r topograffi – môr i'r de, gorllewin a'r gogledd a bryniau i'r dwyrain yn cyfuno i leihau llewyrch o'r awyr.
Ceir gloygfa ysblennydd 360 gradd o awyr y nos o safleoedd fel Mynydd Mawr ac er fod rhai seryddwyr eisioes yn gwybod am y gyfrinach, mae rhai ymwelwyr o'r dinasoedd yn rhyfeddu eu bod yn gallu gweld y Llwybr Llaethog mor rheolaidd.

Ceir pum Parc neu Warchodfa Awyr Dywyll yng Ngymru a Lloegr ond Aberdaron fyddai'r Gymuned Awyr Dywyll gyntaf.

Gyda Ardystiad Awyr Dywyll Rhyngwladol, gobaith Cyswllt Twristiaeth Aberdaron yw y bydd yr ardal yn lle gwych i ymweld â hi ac i syllu ar y ser yn 2021.

Cyswllt: www.aberdaronlink.co.uk

Lluniau drwy ganiatâd seryddwr lleol Steve Porter

Nifwl Pen Ceffyl

Y Saith Chwaer (Pleiades)

Nifwl Trobwll M51

Ynys Enlli – Abaty Santes Fair a'r Llwybr Llaethog